

DYDDIAD

CYNGOR CYLLIDO ADDYSG UWCH CYMRU (1)

a

Y COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL (2)

CYTUNDEB CYLLIDO

CYNNWYS

Cymal	Pennawd	Tudalen
1	Diffiniadau	3
2	Grant	4
3	Talu'r Grant	5
4	Hyd	6
5	Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg	6
6	Penodi sylwedydd	6
7	Rhwymedigaethau'r Coleg	6
8	Cyfrinachedd	9
9	Force Majeure	10
10	Terfynu	10
11	Canlyniadau Terfynu	11
12	Aseinio	11
13	Cyffredinol	11
14	Y Drefn Datrys Anghydfodau Amgen	12
15	Hysbysiadau	13
16	Hawliau Trydydd Parti	13
17	Cyfraith	14
18	Awdurdodaeth	14

(1) CYNGOR CYLLIDO ADDYSG UWCH CYMRU

y mae ei gyfeiriad ar gyfer gohebiaeth yn Cwrt Linden, Y Berllan, Llanisien, Caerdydd CF14 5DZ ("CCAUC"); a

(2) Y COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

(cwmni cyfyngedig drwy warant nad oes ganddo gyfalaf cyfranddaliadau, wedi'i gofrestru yng Nghymru Rhif 7550507) y mae ei swyddfa gofrestredig yn Y Llwyfan, Ffordd y Coleg, Caerfyrddin SA31 3EQ ("Y Coleg").

YN GYMAINT Â BOD:

(A) Y Coleg yn gorff sydd â'r amcan, er lles y cyhoedd, o hybu dysgu a gwybodaeth drwy hyrwyddo, cynnal, datblygu a goruchwylio darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch yng Nghymru, gan weithio gyda a thrwy sefydliadau addysg uwch Cymru ("yr amcan").

(B) Adran 65 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn caniatáu i CCAUC wneud grantiau, benthyciadau neu daliadau eraill i unrhyw bersonau mewn perthynas â gwariant yr aed neu yr eir iddo ganddo at ddibenion darparu gwasanaethau at ddibenion, neu mewn perthynas â, darparu addysg neu ymgymryd ag ymchwil gan sefydliadau o fewn y sector addysg uwch, yn amodol, ym mhob achos, ar y telerau ac amodau hynny sydd ym marn CCAUC yn addas.

(C) Yr amcan yn cynnwys gwasanaethau sy'n dod o fewn Adran 65 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

(D) CCAUC wedi cytuno i roi grant i'r Coleg i'w alluogi i gwrdd â gwariant mewn perthynas â'r amcan.

(E) Y Cytundeb hwn yn nodi o dan ba delerau ac amodau y mae CCAUC wedi cytuno i roi'r grant hwnnw i'r Coleg. Mae'r rhain yn cynrychioli'r rhwymedigaethau atebolrwydd mewn perthynas â'r grant a ddarperir.

CYTUNIR DRWY HYN fel a ganlyn:

1 Diffiniadau

1.1 Yn y Cytundeb hwn, oni bai bod y cyd-destun yn gofyn fel arall: mae "Blynyddol" a "Blwyddyn" yn golygu'r flwyddyn o 1 Awst mewn un flwyddyn hyd 31 Gorffennaf yn y flwyddyn ganlynol;

Mae "Dyddiad Dechrau" yn golygu 1 Ebrill 2011 neu, os yn ddiweddarach, dyddiad y Cytundeb hwn;

Mae "Gwybodaeth Gyfrinachol" yn golygu gwybodaeth gyfrinachol, fasnachol, ariannol, farchnata neu dechnegol neu wybodaeth arall gan gynnwys, heb gyfyngiad, wybodaeth mewn neu'n ymwneud ag arbenigedd, cyfrinachau masnachol a gwybodaeth arall mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng pa un a gaiff ei datgelu ar lafar

neu'n ysgrifenedig cyn neu ar ôl dyddiad y Cytundeb hwn, ynghyd ag unrhyw atgynrchiadau o wybodaeth o'r fath mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng neu unrhyw ran(nau) o'r wybodaeth hon (ac mae "cyfrinachol" yn golygu nad yw'r wybodaeth, naill ai yn ei chyfanrwydd neu yn union ffurfweddiad neu gydosodiad ei chydrannau, ar gael i'r cyhoedd);

Mae "Force Majeure" yn golygu unrhyw ddigwyddiad y tu allan i reolaeth resymol y naill barti neu'r llall sy'n effeithio ar ei allu i gyflawni ei rwymedigaethau (heblaw am dalu) o dan y Cytundeb hwn gan gynnwys tân, llifogydd, mellit, rhyfel, chwyldro, gweithred o derfysgaeth, terfysg neu gynnwrf sifil, streiciau, cau allan neu weithredu diwydiannol arall, gan weithwyr y parti yr effeithir arno neu weithwyr eraill, methiannau cyflenwadau pŵer, tanwydd, cludiant, cyfarpar, defnyddiau crai neu nwyddau neu wasanaethau eraill;

Mae "AU" yn golygu "addysg uwch";

Mae "mis" yn golygu "mis calendr";

Mae "aelodau" yn golygu'r aelodau yn y tri dosbarth o aelodau fel y nodir yn erthyglau cymdeithasu'r Coleg sef, aelodau sefydliadol, aelodau rhanddeiliadol a chadeirydd annibynnol y cyfarwyddwyr.

1.2 Mae penawdau cymalau wedi'u cynnwys er hwylustod yn unig ac ni fyddant yn effeithio ar ddehongli'r Cytundeb hwn.

1.3 Bydd geiriau sy'n golygu'r unigol yn cynnwys y lluosog ac fel arall. Mae geiriau sy'n cyfleu rhyw yn cynnwys pob rhyw ac mae cyfeiriadau at bersonau'n cynnwys unigolyn, cwmni, corfforaeth, busnes neu bartneriaeth.

1.4 Ni fydd y geiriau "arall", "yn cynnwys" ac "yn arbennig" yn cyfyngu ar gyffredinolrwydd unrhyw eiriau blaenorol nac yn cael eu dehongli fel geiriau sydd wedi'u cyfyngu i'r un dosbarth ag unrhyw eiriau blaenorol lle y mae dehongliad ehangach yn bosibl.

1.5 Bydd cyfeiriadau at unrhyw statud neu ddarpariaeth statudol yn cynnwys (i) unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaed odani, (ii) unrhyw ddarpariaeth y mae wedi'i haddasu neu ei haildeddfu (pa un a yw wedi'i haddasu ai peidio), a (iii) unrhyw ddarpariaeth sydd wedyn yn ei disodli neu'n ei haildeddfu (pa un a yw wedi'i haddasu ai peidio).

1.6 Mae cyfeiriadau at gymalau yn gyfeiriadau at gymalau'r Cytundeb hwn.

1.7 Bydd cyfeiriadau at CCAUC yn cynnwys ei olynwyr, aseineion neu is-gontractwyr a ganiateir.

2 Grant

2.1 Mae CCAUC yn cytuno i roi grantiau blynyddol, a delir mewn rhandaliadau y cytunwyd arnynt, ac y penderfynir arnynt drwy gytundeb ymlaen llaw, i'r Coleg yn amodol ar ac yn unol â thelerau ac amodau'r Cytundeb hwn. Bydd CCAUC a'r Coleg

yn gwneud eu gorau i benderfynu ar y grant i'w dalu erbyn yr 31ain o Fai cyn dechrau'r Flwyddyn sy'n dechrau ar y 1af o Awst dilynol. Rhoddir gwybod i'r Coleg am ei grant blynyddol drwy gyfrwng llythyr cyllid grant blynyddol.

2.2 Mae'r llythyr cylch gwaith blynyddol y mae CCAUC wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n manylu ar ei grant i CCAUC am y cyfnod o fis Ebrill 2011 hyd fis Mawrth 2012 yn nodi mai ffigurau dros dro ydynt a bod posibilrwydd y cânt eu newid yn ystod y flwyddyn. Felly bydd y llythyr grant blynyddol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2011/12 a anfonir gan CCAUC i'r Coleg hefyd yn nodi mai ffigurau dros dro ydynt a bod posibilrwydd y cânt eu newid yn ystod y flwyddyn. Dylai'r Coleg gymryd hyn i ystyriaeth wrth wneud ei gynlluniau a chofio y gall sefyllfa gyffelyb godi yn ystod y blynyddoedd i ddod. Bydd CCAUC yn rhoi gwybod i'r Coleg am unrhyw newidiadau i'w grant blynyddol cyn gynted â phosibl.

2.3 Bydd y Coleg, oni chytunir fel arall mewn ysgrifen gan CCAUC, yn defnyddio'r grant a roddir gan CCAUC yn unol â chymal 2.1 i gyflawni amcan y Coleg.

2.4 Ni fydd unrhyw reidrwydd ar CCAUC i wneud taliadau neu grantiau pellach i'r Coleg, ond os bydd yn cytuno i wneud taliadau neu grantiau pellach i'r Coleg, bydd y taliadau neu grantiau hyn yn cael eu gwneud yn unol â'r amodau hyn ac unrhyw amodau eraill ac amrywiadau i'r Cytundeb hwn a/neu'r llythyr grant blynyddol presennol y gall CCAUC a'r Coleg gytuno arnynt ar yr un pryd.

3 Talu'r Grant

3.1 Bydd CCAUC, yn amodol ar yr hyn a ddarperir yn y Cytundeb hwn, yn gwneud y taliad blynyddol y cytunir arno i'r Coleg mewn rhandaliadau ar y dyddiadau ac yn y symiau y cytunir arnynt rhwng CCAUC a'r Coleg (ac eithrio i'r graddau bod unrhyw daliad o'r fath wedi cael ei wneud gan CCAUC i'r Coleg yn gyfan gwbl neu'n rhannol cyn y Dyddiad Dechrau). Bydd y trefniadau ar gyfer talu yn cymryd i ystyriaeth fwriad CCAUC i beidio â thalu grant cyn bod angen.

3.2 Mae CCAUC yn rhagweld y bydd y Coleg yn ceisio incwm o ffynonellau eraill. Ni fydd yn rhaid i CCAUC gynyddu ei grant blynyddol neu ei gyfran o incwm y Coleg yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn.

3.3 Bydd gan CCAUC, os yw'r Coleg, yn ei farn resymol, wedi methu mewn ffordd bwysig â chyflawni ei rwymedigaethau o dan gymal 8, neu os bydd unrhyw un o'r digwyddiadau y cyfeirir atynt yng nghymalau 10.1(c), (d), (e) a/neu (f) wedi digwydd, yr hawl i atal unrhyw ran o'r taliadau y cyfeiriwyd atynt yng nghymal 3.1 hyd nes bod CCAUC (yn ôl ei ddisgresiwn ef yn unig) yn fodlon bod y Coleg wedi cywiro methiant o'r fath.

3.4 Ni fydd CCAUC fel rheol yn talu grant cyn bod angen. Cyflawnir hyn yn bennaf drwy gytuno ar broffil o daliadau grant a roddir gan CCAUC i'r Coleg. Er hynny, mae CCAUC yn cydnabod ei bod hi'n debygol y bydd gan y Coleg weddillion arian parod y gall ennill llog arnynt. Gall unrhyw log o'r fath sy'n deillio o'r grant gael ei gadw gan y Coleg hyd at lefel resymol ar yr amod y caiff ei ddefnyddio at yr un dibenion â'r grant gwreiddiol. Os ceir amrywiad sylweddol yn y defnydd o gyllid o'i gymharu â'r

proffil y cytunwyd arno mae CCAUC yn cadw'r hawl i addasu'r grant neu'r proffil neu i geisio ad-daliad unrhyw log dros ben a dderbynnir drwy gytundeb â'r Coleg.

4 Hyd

4.1 Bydd y Cytundeb hwn yn dod i rym ar y Dyddiad Dechrau a bydd (yn amodol ar y darpariaethau ar gyfer terfynu cynnar yng nghymal 11) yn para hyd 31 Gorffennaf 2012 ac yn parhau mewn grym oni bai a hyd nes bod y naill barti neu'r llall yn rhoi o leiaf 12 mis o rybudd o derfynu i'r llall.

4.2 Gall naill ai CCAUC neu'r Coleg geisio amrywio telerau'r Cytundeb hwn. Bydd unrhyw amrywiadau y cytunir arnynt yn dod i rym ar y dyddiad y cytunir arno, neu os na phennir dyddiad, dri mis ar ôl gwneud cytundeb ysgrifenedig.

5 Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg

5.1 Wrth ystyried aelodaeth ei Fwrdd Cyfarwyddwyr, bydd y Coleg yn annog y rheiny sy'n gysylltiedig â phenodi neu enwebu cyfarwyddwyr i gymryd i ystyriaeth amrywiaeth y Bwrdd, o ran oedran, anabledd, rhyw, hil, crefydd a chred, a gogwydd rhywiol, yn amodol ar Erthyglau Cymdeithasu'r Coleg.

6 Penodi sylwedydd

6.1 Yn unol â hawl CCAUC a nodir yn Erthyglau Cymdeithasu'r Coleg i benodi sylwedydd i Fwrdd y Coleg, mae'r Coleg yn cytuno y gall y sylwedydd ddatgelu i CCAUC unrhyw wybodaeth am y Coleg a all ddod i'w feddiant/meddiant wrth gyflawni ei (d)dyletswyddau fel sylwedydd CCAUC a rhoi i CCAUC gopïau o unrhyw ddogfennau a all ddod i'w feddiant/meddiant wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn.

7 Rhwymedigaethau'r Coleg

7.1 Mae'r Coleg yn cydnabod bod CCAUC wedi cytuno i roi'r grant y cyfeirir ato yng nghymal 2.1 er mwyn i'r Coleg allu cyflawni ei amcan. Un o ofynion y grant yw y dylai'r Coleg fodloni CCAUC bod y Coleg wedi defnyddio'r grant at y diben hwn.

7.2 Mae'r Coleg yn cydnabod hefyd y disgwylir i CCAUC adrodd i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar berfformiad y Coleg, gan gynnwys mewn perthynas â chyflawni targedau a chanlyniadau, a'i ddefnydd o gyllid.

7.3 Felly, mae'r cymal 7 hwn yn nodi amryfal rhwymedigaethau y mae'r Coleg wedi cytuno i ymgymryd â hwy yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn.

7.4 Bydd y Coleg yn hysbysu CCAUC yn brydlon mewn ysgrifenedig o unrhyw fethiant pwysig gan y Coleg i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn yn briodol, yn llawn ac yn effeithiol.

7.5 Ni fydd y Coleg yn defnyddio'r cyllid a roddir iddo gan CCAUC o dan y Cytundeb hwn ond ar gyfer y gwariant a ragwelir yn benodol yn y cynllun gweithredol y cyfeirir ato yng nghymal 7.12 ac, ar yr un pryd ag y cyflwynir y cyfrifon y cyfeirir atynt yng

nghymal 7.9 i CCAUC, bydd yn rhoi i CCAUC dystysgrif gan ei archwilyr fod hyn wedi digwydd.

7.6 Bydd y Coleg yn hysbysu CCAUC yn brydlon mewn ysgrifen o unrhyw amrywiadau sylweddol i'r ffigurau gwariant a gynhwysir yn y cynllun gweithredol y cyfeirir ato yng nghymal 7.12.

7.7 Bydd y Coleg yn sefydlu ac yn cynnal systemau cyfrifydda digonol ac effeithiol a systemau digonol ac effeithiol eraill sy'n ymdrin â phob agwedd ar ei fusnes, asedau, personél ac eiddo. Dylai hyn gynnwys dangos gwerth am arian wrth brynu nwyddau a gwasanaethau ac ystyried cyfleoedd i gydweithio pryd bynnag y bo modd.

7.8 Bydd y Coleg yn rhoi'n brydlon i CCAUC (neu'n darparu mynediad i CCAUC i) unrhyw wybodaeth gyfrifydda a gwybodaeth arall, cofnodion, personél ac asedau o eiddo'r Coleg y gall CCAUC (neu unrhyw berson a benodir gan CCAUC gan gynnwys gwasanaeth archwilio mewnol CCAUC) ofyn amdanynt yn rhesymol o bryd i'w gilydd er mwyn cyflawni swyddogaethau CCAUC mewn perthynas ag arian cyhoeddus neu at unrhyw ddiben rhesymol arall.

7.9 Bydd y Coleg yn rhoi i CCAUC o fewn pum mis ar ôl diwedd pob un o'i flynyddoedd ariannol ddau gopi o'i ddatganiadau ariannol archwiliedig blynyddol ynghyd ag adroddiadau cysylltiedig y cyfarwyddwr a'r archwiliwr, wedi'u cymeradwyo gan gyfarwyddwyr y Coleg a'u llofnodi gan y Cadeirydd ac un o gyfarwyddwyr eraill y Coleg.

7.10 Bydd y Coleg yn cynnal pwyllgor archwilio sy'n gweithredu yn unol â'r safonau a bennir yng Nghod Ymarfer Archwilio presennol CCAUC sy'n ffurfio rhan o'r Memorandwm Ariannol. Bydd gofyn i'r Coleg gael gwasanaeth archwilio mewnol. Bydd y Coleg yn cyflwyno copi o unrhyw lythyr rheoli archwiliad allanol a dderbyniwyd, ynghyd ag ymatebion y rheolwyr, ar yr un pryd â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Yn yr un modd, bydd y Coleg yn cyflwyno i CCAUC gopi o Adroddiad Blynyddol ei Bwyllgor Archwilio ac o adroddiad blynyddol yr archwiliwr mewnol.

7.11 O fewn 28 diwrnod ar ôl diwedd pob chwarter ym mhob un o flynyddoedd ariannol y Coleg, bydd y Coleg yn rhoi i CCAUC gyfrifon rheoli (gan gynnwys cyfrif incwm a gwariant, mantolen a datganiad llif arian) a chymhariaeth â'r gyllideb ac yn cynnwys unrhyw wybodaeth arall y gall CCAUC ei phennu'n rhesymol o bryd i'w gilydd. Gall cynrychiolydd CCAUC yn ystod oriau busnes ac ar ôl rhoi rhybudd rhesymol archwilio'r wybodaeth ariannol sy'n sylfaen i'r wybodaeth rheoli hon. Bydd aelod uwch o reolwyr y Coleg ar gael ar ôl rhoi rhybudd rhesymol i ymdrin ag unrhyw faterion a all godi o ganlyniad i archwiliad CCAUC neu o ganlyniad i unrhyw adolygiad arall gan CCAUC.

7.12 Bydd y Coleg yn cynhyrchu ac yn cyflwyno i CCAUC gynllun gweithredol blynyddol ac adroddiad blynyddol, a bydd dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno'r adroddiadau hyn yn cael eu rhoi i'r Coleg yn y llythyr cyllid grant blynyddol. Bydd y Coleg yn cynhyrchu cynllun strategol newydd, yn ei ffurf derfynol ac wedi'i gymeradwyo gan y cyfarwyddwyr, i'w gyflwyno i CCAUC bob 3 blynedd. Bydd CCAUC yn dymuno cael sicrwydd bod y cynllun corfforaethol a'r cynllun gweithredol

blynyddol yn cynnwys targedau a mesurau perfformiad priodol. Bydd CCAUC yn disgwyl i'r Coleg gyhoeddi ei gynllun corfforaethol a chynllun gweithredol blynyddol.

7.13 Os yw rheolaeth fewnol wedi torri i lawr yn sylweddol o fewn y Coleg ym marn resymol CCAUC a/neu os oes methiant sylweddol i gyflawni'r Cytundeb hwn yna bydd gan CCAUC yr hawl i dynnu sylw cyfarwyddwyr y Coleg at hyn a bydd y Coleg yn gwneud ei orau glas i gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau rhesymol a roddir gan CCAUC fel bod y Coleg yn cyflawni'n effeithlon ac effeithiol ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn.

7.14 Mae CCAUC yn cadw'r hawl i benodi trydydd parti annibynnol i adrodd (ar gost y Coleg os bydd CCAUC yn pennu hynny) ar agweddau ar gyflawni'r Cytundeb hwn gan y Coleg sy'n peri pryder i CCAUC. Cyn ymarfer yr hawl hwn, bydd CCAUC yn ymgynghori â'r Coleg.

7.15 Bydd gan CCAUC yr hawl i hysbysu unrhyw aelodau o'r Coleg am y tro, Gweinidogion Cymru a'u swyddogion, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, o unrhyw faterion pwysig sy'n dod i sylw CCAUC o ganlyniad i'r monitro y cyfeirir ato yn y cymal 7 hwn.

7.16 Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru pan fydd yn gofyn am hynny yn gallu archwilio llyfrau a chofnodion y Coleg sy'n ymwneud â chyflawni ei gyfrifoldebau i CCAUC o dan y Cytundeb hwn fel y gall gyflawni ei ddyletswyddau statudol fel archwilydd allanol CCAUC.

7.17 Dylai'r Coleg roi ystyriaeth briodol i'r holl ofynion deddfwriaethol perthnasol sy'n effeithio ar ei waith. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu i, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2010, y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Newidiad) a'r ddyletswydd i hybu cydraddoldeb hiliol, y ddeddfwriaeth bresennol yn ymwneud â rhyw ac anabledd, a rheoliadau'r UE sy'n cwmpasu oedran, crefydd, gogwydd rhywiol a materion cyfle cyfartal eraill. Mae'r gofynion hyn yn adlewyrchu rhwymedigaethau a roddir ar CCAUC ei hun.

7.18 Bydd y Coleg yn mabwysiadu safonau arfer da ym meysydd llywodraethu corfforaethol a rheoli risg a bydd yn gwneud datganiad llywodraethu corfforaethol priodol yn ei ddatganiadau ariannol blynyddol.

7.19 Bydd y Coleg yn cynnal cofrestr o fuddiannau sy'n gweithredu yn unol â safonau arfer da ar gyfer aelodau'r Bwrdd, uwch reolwyr a'r rheiny sydd â budd o bwys mewn caffael contractau mawr. Bydd y Coleg yn cynnal cofrestr o roddion a roddir ac a dderbynnir, sy'n gweithredu yn unol â safonau arfer da. Rhaid rhoi gwybod i Bennaeth Archwilio Mewnol CCAUC cyn gynted â phosibl am bob achos o dwyll neu o amau twyll yn ymwneud â symiau sy'n debygol o fod yn fwy na £5,000.

7.20 Gall y Coleg godi am wasanaethau a ddarperir ar gyfer trydydd partion. Wrth wneud hyn, bydd y Coleg yn rhoi ystyriaeth i gost lawn darparu'r gwasanaethau hyn wrth bennu'r swm i'w godi.

7.21 Ni fydd y Coleg yn benthycu ar warrant y taliadau grant a ddarperir yn unol â'r Cytundeb hwn ond gall fenthycu yn erbyn ei asedau eraill. Os bydd cynnal dyled yn

debygol o gynnwys y defnydd o gyllid CCAUC, bydd y Coleg yn ceisio cydsyniad priodol ymlaen llaw, ac ni fydd cydsyniad o'r fath yn cael ei wrthod neu ei ddal yn ôl yn afresymol.

7.22 Ni all y Coleg sefydlu is-fenter heb gael cydsyniad CCAUC ymlaen llaw, ac ni fydd cydsyniad o'r fath yn cael ei wrthod yn afresymol.

8 Cyfrinachedd

8.1 Bydd CCAUC yn cadw'n gyfrinachol ac yn sicrhau cyfrinachedd bob Gwybodaeth Gyfrinachol yn perthyn i'r Coleg a ddatgelir neu a geir o ganlyniad i berthynas y partïon o dan y Cytundeb hwn ac ni fydd yn defnyddio nac yn datgelu'r Wybodaeth Gyfrinachol hon ac eithrio at ddibenion cyflawni'r Cytundeb hwn yn briodol neu gyda chydsyniad ysgrifenedig blaenorol y Coleg. Os datgelir gwybodaeth i unrhyw aelod staff, ymgynghorydd, neu asiant, gwneir hyn yn amodol ar rwymedigaethau sy'n gyfwerth â'r rheiny a nodir yn y Cytundeb hwn. Mae CCAUC yn cytuno i sicrhau, os bydd y Coleg yn gwneud cais rhesymol cyn i ddatgeliad o'r fath gael ei wneud, y bydd y cyfryw aelod staff, ymgynghorydd, neu asiant yn ymrwymo i weithred cyfamod gyda'r Coleg ar ffurf sy'n rhesymol dderbyniol i'r Coleg sy'n cynnwys rhwymedigaethau sy'n gyfwerth â'r rheiny a nodir yn y cymal 8 hwn. Bydd CCAUC yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod unrhyw aelod staff, ymgynghorydd, neu asiant o'r fath yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau hyn. Bydd CCAUC yn gyfrifol i'r Coleg mewn perthynas ag unrhyw ddatgeliad neu ddefnydd o Wybodaeth Gyfrinachol a wneir gan berson y datgelir gwybodaeth iddo/iddi.

8.2 Ni fydd rhwymedigaethau cyfrinachedd a rhwymedigaethau eraill yn y cymal 8 hwn yn ymestyn i unrhyw fater y gall CCAUC ddangos:

- (a) Ei fod yn, neu wedi dod yn rhan o'r parth cyhoeddus ac eithrio o ganlyniad i dorri'r rhwymedigaethau cyfrinachedd o dan y Cytundeb hwn; neu
- (b) Ei fod yn ei gofnodion ysgrifenedig cyn y Dyddiad Dechrau; neu
- (c) Iddo gael ei ddatgelu'n annibynnol iddo gan drydydd parti yr oedd ganddo hawl i ddatgelu'r wybodaeth dan sylw; neu
- (d) Bod gofyn iddo gael ei ddatgelu o dan unrhyw ddeddf berthnasol, neu drwy orchymyn llys neu gan gorff llywodraethol neu awdurdod ag awdurdodaeth gymwys.

8.3 Ni fydd y rhwymedigaethau cyfrinachedd ac unrhyw rwymedigaethau eraill yn y cymal 8 hwn yn ymestyn i roi unrhyw wybodaeth neu ddogfennau gan CCAUC i unrhyw aelod o'r Coleg gan gynnwys, heb ragfarn i gyffredinolrwydd yr uchod, unrhyw gynllun strategol o eiddo'r Coleg ac unrhyw wybodaeth ariannol arall yn ymwneud â'r Coleg a roddir i neu a geir gan CCAUC.

8.4 Ni fydd CCAUC yn datgelu unrhyw wybodaeth yn ymwneud â'r Coleg i unrhyw ddarpar gyllidwr arall heb yn gyntaf gael cadarnhad ysgrifenedig gan y cyfryw ddarpar gyllidwr arall y bydd yn trin yn gyfrinachol unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol a ddatgelir iddo ac na fydd y cyfryw ddarpar gyllidwr arall yn ei defnyddio ond at y pwrpas o werthuso credyd y Coleg.

9 Force Majeure

9.1 Os effeithir ar y naill barti neu'r llall gan Force Majeure bydd yn hysbysu'r parti arall mewn ysgrifen yn ddiymdroi o'r materion sy'n ffurfio'r Force Majeure a bydd yn rhoi gwybod i'r parti hwnnw am barhad y materion hyn ac am unrhyw newid mewn amgylchiadau tra bo'r Force Majeure yn parhau.

9.2 Bydd y parti yr effeithir arno gan Force Majeure yn cymryd pob cam rhesymol sydd ar gael i leihau i'r eithaf effeithiau'r Force Majeure ar gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn.

9.3 Ac eithrio fel y darperir yng nghymal 9.5, ni fydd Force Majeure yn rhoi hawl i'r naill barti neu'r llall derfynu'r Cytundeb hwn ac nid ystyrir bod y naill barti neu'r llall yn torri'r Cytundeb hwn, neu fod y naill fel arall yn atebol i'r llall, oherwydd unrhyw oedi wrth gyflawni, neu fethiant i gyflawni ei rwymedigaethau o ganlyniad i Force Majeure.

9.4 Os bydd y parti yr effeithir arno gan Force Majeure yn methu â chydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan gymalau 9.1 a 9.2 yna ni fydd unrhyw ymwared ar gyfer Force Majeure, gan gynnwys o ddarpariaethau cymal 9.3, ar gael iddo a bydd rhwymedigaethau pob parti yn parhau mewn grym.

9.5 Os bydd y Force Majeure yn parhau am fwy na thri mis gall y naill barti neu'r llall ar unrhyw adeg tra bo'r Force Majeure yn parhau derfynu'r Cytundeb hwn drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r llall.

10 Terfynu

10.1 Gall CCAUC derfynu'r Cytundeb hwn ar unwaith heb dalu iawndal neu am ddifrod arall a achosir i'r Coleg o ganlyniad i'r terfynu hwn yn unig, drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Coleg os bydd unrhyw un neu ragor o'r digwyddiadau canlynol yn digwydd:

(a) Mae'r Coleg yn torri unrhyw un o'i rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn ac nid oes modd ei gywiro;

(b) Mae'r Coleg yn methu â chywiro, lle y mae modd cywiro, neu'n parhau i dorri unrhyw un o'i rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn (ac eithrio yn achos talu) ar ôl derbyn cais ysgrifenedig i gywiro neu i ymatal rhag tor-rhwymedigaeth o'r fath o fewn cyfnod o 60 diwrnod;

(c) Cymerir unrhyw gamau neu dechreuir unrhyw drafodaethau gan y Coleg neu unrhyw un o'i gredydwy'r gyda'r nod o gynnig unrhyw fath o gyfrandalu, cyfaddawd neu drefniant yn ymwneud â'r Coleg ac unrhyw gredydwy'r;

(d) Mae unrhyw atafael neu weithrediad yn cael ei godi ar ei asedau nad yw'n cael ei dalu o fewn saith diwrnod ar ôl cael ei godi;

(e) Bernir nad yw'r Coleg yn gallu talu ei ddyledion o fewn ystyr Adran 123 o Ddeddf Methdaliad 1986, neu mae'n galw cyfarfod at bwrpas pasio cynnig i'w ddirwyn i ben,

neu caiff cynnig o'r fath ei basio, neu caiff cynnig ei basio gan gyfarwyddwyr y Coleg i geisio gorchymyn dirwyn i ben neu orchymyn gweinyddu, neu mae'r Coleg yn cyflwyno, neu wedi cyflwyno, deiseb i benodi gweinyddwr, neu mae ganddo dderbynnydd gweinyddol, neu dderbynnydd wedi'i benodi dros y cyfan neu unrhyw ran o'i fusnes, is-fenter, eiddo neu asedau;

(f) Mae'r Coleg yn atal neu'n peidio â gwneud taliadau (boed yn brifswm neu'n llog) mewn perthynas â phob neu unrhyw ddsbarth o'i ddyledion neu'n cyhoeddi ei fwriad i wneud hynny neu mae'r Coleg yn atal neu'n rhoi'r gorau neu'n bygwth atal neu roi'r gorau i gynnal ei fusnes;

(g) Mae benthyciwr wedi'i warantu yn cymryd camau i gael meddiant o eiddo'r Coleg y mae ganddo warant arno neu'n gorfodi ei warant mewn ffordd arall.

10.2 Bydd terfynu'r Cytundeb hwn heb ragfarn i hawliau a rhwymedïau'r naill barti neu'r llall a all fod wedi cronni hyd at ddyddiad y terfynu.

11 Canlyniadau Terfynu

11.1 Ar ôl terfynu'r Cytundeb hwn am unrhyw reswm:

(a) (Yn amodol ar gymal 10.2) bydd y berthynas rhwng y partiön yn dod i ben ac eithrio fel y darperir (ac i'r graddau a ddarperir) yn arbennig yn y cymal 11 hwn;

(b) Bydd darpariaethau cymalau 8, 11, 14, 17, a 18 ac unrhyw ddarpariaeth y bwriedir yn arbennig neu drwy oblygiad iddi ddod i rym neu aros mewn grym ar neu ar ôl terfynu yn parhau yn eu cyflawn rym a'u nerth.

(c) Bydd pob parti yn dychwelyd yn ddiymdroi i'r parti arall, os bydd y parti arall yn gofyn am hyn mewn ysgrifen (neu, os bydd y parti arall yn gofyn am hyn drwy rybudd ysgrifenedig, dinistrio) holl eiddo'r parti arall (ac eithrio, i osgoi amheuaeth, y symiau a dalwyd yn briodol i'r Coleg yn unol â chymal 3) sydd yn ei feddiant adeg terfynu, gan gynnwys ei holl Wybodaeth Gyfrinachol, ynghyd â'r holl gopiâu o'r gyfryw Wybodaeth Gyfrinachol a bydd yn ardystio ei fod wedi gwneud hyn, ac ni fydd yn gwneud defnydd pellach o'r Wybodaeth Gyfrinachol hon.

12 Aseinio

12.1 Mae'r Cytundeb hwn yn bersonol i'r ddau barti. Ni fydd y naill barti na'r llall yn aseinio, dirprwyo, is-gontractio, trosglwyddo, arwystlo neu waredu fel arall ei hawliau a'i gyfrifoldebau yn gyfan gwbl neu'n unigol o dan y Cytundeb hwn.

13 Cyffredinol

13.1 Ni fydd y Coleg yn gwystlo credyd CCAUC nac yn honni ei fod yn CCAUC nac yn asiant, partner, aelod staff na chynrychiolydd CCAUC ac ni fydd y Coleg yn ei bortreadu ei hun felly na fel pe bai ganddo unrhyw bŵer neu awdurdod i ymrwymo i unrhyw rwymedigaeth o unrhyw natur, yn ddatganedig neu'n ymhlyg, ar ran CCAUC ac ni fydd dim yn y Cytundeb hwn yn creu, nac yn cael ei ystyried ei fod yn creu, partneriaeth neu gyd-fenter neu berthynas cyflogwr a gweithiwr neu bennaeth ac

asiant rhwng y partiön ac nid ystyrir bod unrhyw aelod o staff y Coleg yn neu wedi dod yn aelod o staff CCAUC.

13.2 Oni bai bod CCAUC a'r Coleg yn cytuno fel arall, mae'r Cytundeb hwn yn cynnwys y cytundeb cyfan rhwng y partiön mewn perthynas â'i gynnwys. Mae pob parti yn ildio'n ddi-awl'n ôl ac yn ddiomod unrhyw hawl a all fod ganddo i hawlio iawndal am, a/neu i ddirymu'r Cytundeb hwn oherwydd torri unrhyw warant nas cynhwyswyd yn y Cytundeb hwn, neu unrhyw gamliwiad pa un a yw wedi'i gynnwys yn y Cytundeb hwn ai peidio, oni bai i'r fath gamliwiad gael ei wneud drwy dwyll.

13.3 Ni fydd unrhyw newid neu amrywiad a fwriedir i'r Cytundeb hwn yn dod i rym oni bai ei fod mewn ysgrifen, yn cyfeirio'n benodol at y Cytundeb hwn ac wedi'i lofnodi gan gyfarwyddwr neu gan Brif Weithredwr pob parti i'r Cytundeb hwn.

13.4 Ni fydd hawliau a rhwymedïau'r naill barti neu'r llall mewn perthynas â'r Cytundeb hwn yn cael eu lleihau, eu hildio na'u dileu drwy i unrhyw faddeuant, dioddefgarwch neu estyniad amser gael ei roi gan y cyfryw barti i'r llall neu drwy unrhyw fethiant neu oedi gan y parti dywededig wrth gadarnhau neu ymarfer unrhyw hawliau neu rwymedïau o'r fath. Os caiff y Cytundeb hwn ei dorri mewn unrhyw ffordd ac os bydd y naill barti neu'r llall yn ildio ei hawl mewn perthynas â hyn ni fydd hyn yn atal gorfodi'r ddarpariaeth honno wedyn ac nid ystyrir bod hawl wedi cael ei ildio mewn perthynas ag unrhyw doriad dilynol o'r ddarpariaeth honno nac unrhyw ddarpariaeth arall.

13.5 Os bydd unrhyw ran o'r Cytundeb hwn ar unrhyw adeg (gan gynnwys unrhyw un neu ragor o gymalau'r Cytundeb hwn neu unrhyw is-gymal neu baragraff neu unrhyw ran o un neu ragor o'r cymalau hyn) yn cael ei hystyried yn neu'n dod yn ddirym neu'n anorfodadwy fel arall am unrhyw reswm o dan unrhyw ddeddf berthnasol, ystyrir bod y gyfryw ran wedi'i hepgor o'r Cytundeb hwn ac ni fydd yr hepgoriad hwn yn effeithio neu'n amharu mewn unrhyw ffordd ar ddilysrwydd a/neu gorfodadwyedd darpariaethau'r Cytundeb hwn sy'n weddill.

13.6 Gellir ymrwymo i'r Cytundeb hwn ar ffurf dwy wrthran, pob un wedi'i chyflawni gan un o'r partiön ond, o'u cymryd gyda'i gilydd, wedi'u cyflawni gan bob un, ac, ar yr amod y bydd y ddau barti yn ymrwymo fel hyn i'r Cytundeb, ystyrir bod pob un o'r gwrthrannau a gyflawnwyd, pan gânt eu cyfnewid neu eu trosglwyddo'n briodol, yn wreiddiol ond, o'u cymryd gyda'i gilydd, y byddant yn un offeryn.

13.7 Bydd pob un o'r partiön yn defnyddio ymdrechion rhesymol i sicrhau y bydd unrhyw drydydd partiön angenrheidiol yn cyflawni ac yn trosglwyddo i'r Coleg unrhyw offerynnau a dogfennau eraill o'r fath ac yn cymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i gyflawni darpariaethau'r Cytundeb hwn yn unol â'i delerau.

14 Y Drefn Datrys Anghydfodau Amgen

14.1 Os bydd unrhyw anghydfod yn codi o'r Cytundeb hwn neu mewn cysylltiad ag ef bydd y partiön yn ceisio ei ddatrys drwy gyfryngu yn unol â Threfn Cyfryngu Model y Ganolfan ar gyfer Datrys Anghydfodau'n Effeithiol (CEDR Solve). I gyhwyn cyfryngu, rhaid i un parti hysbysu'r llall ("Hysbysiad DDAA"), yn gofyn am gyfryngu yn unol â'r cymal 14 hwn.

14.2 Os oes unrhyw bwynt mewn perthynas â chynnal y cyfryngu (gan gynnwys enwebu'r cyfryngwr) na all y partiön gytuno arno o fewn 14 diwrnod ar ôl rhoi'r Hysbysiad DDAA, bydd CEDR Solve, ar gais y naill barti neu'r llall, yn penderfynu ar y pwynt hwnnw ar ran y partiön, ar ôl ymgynghori â hwy. Ni fydd y cyfryngu'n dechrau'n hwyrach na 30 diwrnod ar ôl dyddiad yr Hysbysiad DDAA.

14.3 Os nad yw'r mater wedi cael ei ddatrys drwy gyfryngu o fewn 60 diwrnod ar ôl yr Hysbysiad DDAA, bydd y partiön yn rhydd i ddilyn eu rhwymedïau heb gyfeirio ymhellach at y cymal 14 hwn. Ni ddylai unrhyw beth yn y cymal 14 hwn rwystro unrhyw barti rhag ceisio gwaharddeb ragarweiniol neu rwymedi cyfreithiol arall ar unrhyw adeg os yw gweithredu o'r fath yn ei farn ef yn angenrheidiol i atal difrod anadferadwy.

15 Hysbysiadau

15.1 Rhaid i unrhyw hysbysiadau a anfonir o dan y Cytundeb hwn fod mewn ysgrifen a gellir eu dosbarthu'n bersonol neu eu hanfon drwy bost dosbarth cyntaf, ffacsimili neu ddull trawsyrru data electronig i'r cyfeiriad a roddwyd uchod neu i unrhyw gyfeiriadau eraill y gall y parti perthnasol eu rhoi at bwrpas cyflwyno hysbysiadau o dan y Cytundeb hwn. Ystyrir bod pob hysbysiad o'r fath wedi cael ei gyflwyno wrth ei ddsbarthu os caiff ei gyflwyno â llaw neu ar ôl dau ddiwrnod busnes ar ôl ei anfon os caiff ei ddsbarthu drwy bost neu am 10.00am amser lleol i'r derbynnydd ar y Diwrnod Busnes nesaf os caiff ei anfon drwy ffacsimili neu ddull trawsyrru data electronig.

15.2 I brofi bod unrhyw hysbysiad wedi cael ei gyflwyno bydd yn ddigonol i ddangos yn achos hysbysiad a ddsberthir â llaw i'r hysbysiad gael ei gyfeirio'n briodol a'i ddsbarthu â llaw ac yn achos hysbysiad a gyflwynir drwy'r post i'r hysbysiad gael ei gyfeirio a'i ragdalun briodol a'i bostio yn y modd a nodwyd uchod. Yn achos hysbysiad a anfonir drwy ffacsimili neu ddull trawsyrru data electronig, bydd yn ddigonol i ddangos iddo gael ei anfon ar ffurf ddarllenadwy a chyflawn i'r rhif ffôn neu'r rhif neu gyfeiriad data electronig heb neges gwall ar yr amod bod copi cadarnhau o'r trawsyriant yn cael ei anfon at y derbynnydd yn y post yn y modd a nodwyd uchod. Bydd methiant i anfon copi cadarnhau yn gwneud unrhyw ffacsimili neu drawsyriant data electronig a gyflwynir yn annilys.

16 Hawliau Trydydd Parti

16.1 Bydd hawl gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i orfodi cymal 7.16 o'r Cytundeb hwn yn unol â Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partiön) 1999.

16.2 Ac eithrio mewn perthynas â'r parti y cyfeirir ato yng nghymal 16.1, at bwrpas adran 1(2) o Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partiön) 1999, mae'r partiön yn nodi nad ydynt yn bwriadu i unrhyw delerau'n ymwneud â'r Cytundeb hwn gael eu gorfodi gan unrhyw drydydd partiön ond y bydd unrhyw hawl trydydd parti sy'n bodoli neu sydd ar gael yn annibynnol ar y Ddeddf hon yn cael ei gadw.

17 Cyfraith

17.1 Bydd y Cytundeb hwn yn cael ei lywodraethu gan, a'i ddehongli yn unol â, deddfau Lloegr a Chymru.

18 Awdurdodaeth

18.1 Bydd pob anghydfod sy'n codi o neu'n ymwneud â'r Cytundeb hwn ac nad yw'n cael ei ddatrys gan y gweithdrefnau y cyfeiriwyd atynt yng nghymal 5 yn dod o dan awdurdodaeth Iwyr-gyfyngedig llysoedd Lloegr y mae'r partïon yn ymostwng yn ddi-alw'n ôl iddi. GAN DYSTIO I'R UCHOD mae'r partïon wedi llofnodi'r Cytundeb hwn ar y dyddiad sydd wedi cael ei hysgrifennu ar ddechrau'r Cytundeb hwn.

LLOFNODWYD gan)
)
awdurdodwyd yn briodol gan a thros)
ac ar ran CCAUC)

Enw:

.....

Llofnodydd Awdurdodedig

Swydd:

Prif Weithredwr

LLOFNODWYD gan)
)
awdurdodwyd yn briodol gan a thros)
ac ar ran Y Coleg)

Enw:

.....

Llofnodydd Awdurdodedig

Swydd:

Prif Weithredwr